Oddi wrth: [Hepgorwyd yr wybodaeth – adran 40(2) – swyddog Comisiynydd y Gymraeg]< **[Hepgorwyd yr wybodaeth – adran 40(2) – swyddog Comisiynydd y Gymraeg]**@cyg-wlc.cymru>
Anfonwyd: Dydd Mercher, 20 Tachwedd 2024 16:39
At: [Hepgorwyd yr wybodaeth – adran 40(2) – swyddog Llywodraeth Cymru] (ECWL - Education Directorate - Cymraeg 2050) <**[Hepgorwyd yr wybodaeth – adran 40(2) – swyddog Llywodraeth Cymru]**@gov.wales>; **[Hepgorwyd yr wybodaeth – adran 40(2) – swyddog Llywodraeth Cymru]** (ECWL - Education Directorate - Cymraeg 2050) <**[Hepgorwyd yr wybodaeth – adran 40(2) – swyddog Llywodraeth Cymru]**@gov.wales>
Copi/Cc: [Hepgorwyd yr wybodaeth – adran 40(2) – swyddog Comisiynydd y Gymraeg]<**[Hepgorwyd yr wybodaeth – adran 40(2) – swyddog Comisiynydd y Gymraeg]**@cyg-wlc.cymru>
Pwnc: Polisi Gorfodi

Prynhawn da i chi eich dau,

Fel y gwyddoch o'n trafodaethau diweddar, rydym yn bwriadu cychwyn ar gyfnod ymgysylltu ar ein Polisi Gorfodi diwygiedig yn fuan (w/c 2 Rhagfyr).

Fe fyddwch yn ymwybodol o'n hymrwymiad i ddatblygu a gwreiddio dull o gyd-reoleiddio gyda ffocws cryf ar hybu hunan-reoleiddio. Mae'r dull newydd hwn o weithio yn seiliedig ar egwyddorion cydweithredu a phartneriaeth, gan weithio'n agos gyda sefydliadau. Rydym hefyd yn canolbwyntio'n fwyfwy ar ddeilliannau rheoleiddio, gan sicrhau bod ein hymdrechion yn arwain at ganlyniadau pendant a chadarnhaol i siaradwyr Cymraeg. Bydd yr angen i gyflawni'r deilliannau hyn yn llywio ein dull a'n hymagwedd reoleiddio, a byddwn yn defnyddio ein hadnoddau lle mae'r risgiau i gyflawniad y deilliannau yma ar eu mwyaf.

Ein nod yw gwneud yn siŵr nad yw rheoleiddio yn golygu cynnal ymchwiliadau statudol a gosod camau gorfodi cyfreithiol yn unig. Mae'n golygu darparu cyngor, codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth a chefnogi sefydliadau i gydymffurfio â'r safonau. Rydym am i'n polisi gorfodi diwygiedig adlewyrchu'r dull newydd hwn o weithio.

Yn unol â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sydd gennym â chi, dyma rannu copi o'r Polisi Gorfodi at eich sylw.

Wedi i'r cyfnod ymgysylltu ddod i ben yn gynnar yn 2025, byddwn yn rhoi sylw dyladwy i'r ymatebion rydym yn ei dderbyn ac yn ystyried pa newidiadau pellach sydd eu hangen i'r polisi. Ein bwriad fydd cyflwyno'r Polisi Gorfodi diwygiedig ar gyfer cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru cyn gynted ag y bo modd wedi hynny.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r uchod, cysylltwch ar bob cyfrif.

Gyda diolch,

[Hepgorwyd yr wybodaeth – adran 40(2)]
[Hepgorwyd yr wybodaeth – adran 40(2)]
Comisiynydd y Gymraeg/ Welsh Language Commissioner

0345 6033 221
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
comisiynyddygymraeg.cymru

Dylai'r datganiadau/sylwadau uchod gael eu hystyried yn rhai personol ac nid o reidrwydd yn ddatganiadau neu sylwadau gan Gomisiynydd y Gymraeg, unrhyw ran ohono neu unrhyw gorff sy'n gysylltiedig ag ef. Sganiwyd y neges yma am bob feirws hysbys wrth iddi adael Comisiynydd y Gymraeg. Defnyddir systemau diogelwch busnes Microsoft i gyflawni'r gwasanaeth hwn.

Welsh Language Commissioner

0345 6033 221
Correspondence welcomed in Welsh and English
welshlanguagecommissioner.cymru

The statements/comments made above should be regarded as personal and not nec essarily those of the
Welsh Language Commissioner, any constituent part or connected body. On leaving the Welsh Language Commissioner this email was scanned for all known viruses. Microsoft Enterprise security applications are used to provide this service.

Oddi wrth: [Hepgorwyd yr wybodaeth – adran 40(2) – swyddog Comisiynydd y Gymraeg]< **[Hepgorwyd yr wybodaeth – adran 40(2) – swyddog Comisiynydd y Gymraeg]**@cyg-wlc.cymru>
Anfonwyd: Dydd Gwener, 5 Rhagfyr 2025 14:56
At: [Hepgorwyd yr wybodaeth – adran 40(2) – swyddog Llywodraeth Cymru] (ECWL - Cymraeg 2050) <**[Hepgorwyd yr wybodaeth – adran 40(2) – swyddog Llywodraeth Cymru]**@gov.wales>
Copi/Cc: [Hepgorwyd yr wybodaeth – adran 40(2) – swyddog Llywodraeth Cymru]ECWL - Cymraeg 2050) <**[Hepgorwyd yr wybodaeth – adran 40(2) – swyddog Llywodraeth Cymru]**@gov.wales>; **[Hepgorwyd yr wybodaeth – adran 40(2) – swyddog Comisiynydd y Gymraeg]** <**[Hepgorwyd yr wybodaeth – adran 40(2) – swyddog Comisiynydd y Gymraeg]**@cyg-wlc.cymru>
Pwnc: Polisi Gorfodi Diwygiedig

Prynhawn da **[Hepgorwyd yr wybodaeth – adran 40(2) – swyddog Llywodraeth Cymru]**,

Fel y gwyddost, rydym wedi bod yn gweithio ar ddiwygio ein polisi gorfodi yn dilyn cyfnod ymgynghori ddechrau'r flwyddyn. Rwy'n falch o ddweud ein bod bellach yn barod i gyflwyno'r polisi i Weinidogion Cymru er mwyn cael cymeradwyaeth.

Cyn hynny, byddwn yn cyhoeddi'r polisi diwygiedig ar ein gwefan ddechrau wythnos nesaf (8 Rhagfyr), ynghyd â'r dogfennau cysylltiedig sy'n cynnwys adroddiad ôl-ymgynghori a'r asesiad effaith cydraddoldeb annibynnol.

Ein bwriad yw hysbysu pob ymatebydd i'r ymgynghoriad, yn ogystal â phob sefydliad sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg, am y cyhoeddiad hwn. Wrth gyfathrebu â hwy, byddwn yn pwysleisio na fydd y polisi yn weithredol hyd nes y caiff gymeradwyaeth weinidogol.

Bydd y polisi diwygiedig, ynghyd â llythyr at yr Ysgrifennydd Cabinet yn gofyn am gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru, yn cael ei anfon atoch ddydd Llun 15 Rhagfyr.

Os oes gennyt unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r uchod, cysyllta ar bob cyfrif.

Gyda diolch,

[Hepgorwyd yr wybodaeth – adran 40(2)]
[Hepgorwyd yr wybodaeth – adran 40(2)]
Comisiynydd y Gymraeg/ Welsh Language Commissioner

0345 6033 221
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
comisiynyddygymraeg.cymru

Dylai'r datganiadau/sylwadau uchod gael eu hystyried yn rhai personol ac nid o reidrwydd yn ddatganiadau neu sylwadau gan Gomisiynydd y Gymraeg, unrhyw ran ohono neu unrhyw gorff sy'n gysylltiedig ag ef. Sganiwyd y neges yma am bob feirws hysbys wrth iddi adael Comisiynydd y Gymraeg. Defnyddir systemau diogelwch busnes Microsoft i gyflawni'r gwasanaeth hwn.

Welsh Language Commissioner

0345 6033 221
Correspondence welcomed in Welsh and English
welshlanguagecommissioner.cymru

The statements/comments made above should be regarded as personal and not nec essarily those of the
Welsh Language Commissioner, any constituent part or connected body. On leaving the Welsh Language Commissioner this email was scanned for all known viruses. Microsoft Enterprise security applications are used to provide this service.

Cymraeg
Ysgrifennwch ataf yn Gymraeg neu Saesneg
Please write to me in Welsh or English